**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

9 Hydref 2025

Annwyl Elin,

Ymgynghoriad: Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf 2025, yn gofyn am farn ynghylch effeithiolrwydd pwyllgorau yn y Chweched Senedd.

Wedi trafod eich llythyr yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2025, hoffai'r Pwyllgor ymateb i'r cwestiynau yn eich dogfen ymgynghori gyda'r sylwadau a ganlyn.

## Diwylliant Pwyllgorau

1. Roedd yr Aelodau o'r farn bod gosod strategaeth a gweledigaeth glir yn bwysig i bwyllgor ar ddechrau tymor Senedd. Maent yn credu y dylai strategaeth o'r fath gael ei hadolygu yn rheolaidd i sicrhau bod y blaenoriaethau cytunedig yn parhau i fod yn berthnasol, yn enwedig yn sgil newidiadau i aelodaeth yn ystod cyfnod y Senedd.
2. Teimlai'r Aelodau fod gallu pwyllgorau i lunio eu rhaglenni gwaith yn ôl eu blaenoriaethau cytunedig eu hunain yn bwysig iawn. Nododd y Pwyllgor fod cyfeirio deddfwriaeth berthnasol a gyflwynir gan y Llywodraeth wedi mennu ar y gallu hwn, gan nad oes gan bwyllgorau fawr o ddylanwad ar amseriad y cyfryw.
3. Teimlai'r Aelodau fod y Pwyllgor wedi gweithio'n dda ac mewn ffordd golegol yn ystod y Senedd hon, gan briodoli hyn i gyfoeth y profiad sydd gan ei Aelodau. Mynegwyd pryder y gallai colli cymaint o brofiad ac arbenigedd fod yn broblem i'r Seithfed Senedd.
4. Yn gysylltiedig â hyn, teimlai'r Aelodau ei bod yn debygol y byddai gan nifer o bwyllgorau gadeiryddion newydd a dibrofiad ar ddechrau'r Seithfed Senedd ac, o'r herwydd, y byddai

angen sicrhau bod hyfforddiant a chymorth priodol ar gael iddynt ar gyfer deall a chyflawni eu rôl.

Trefniadaeth Busnes y Pwyllgorau

5. Teimlai Aelodau sydd â phrofiad o fod ar bwyllgorau sy’n ymdrin â pholisi a deddfwriaeth ar wahân ei bod yn fwy effeithiol pan fydd polisi a deddfwriaeth yn cael eu harwain gan un pwyllgor, gan fod hynny’n galluogi Aelodau i gronni gwybodaeth a magu arbenigedd yn y maes pwnc.
6. O ran maint y pwyllgorau, roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r heriau capasiti y mae pwyllgorau bach â phedwar aelod yn eu hwynebu, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar eu gallu i gyflawni eu gwaith. Roeddent yn teimlo bod pwyllgorau mwy yn fwy gwydn, a’u bod yn cynnig mwy o gyfleoedd i feithrin a defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd yr Aelodau.

Rhyngweithio â Phwyllgorau

7. Yn gyffredinol, roedd yr Aelodau o blaid gweithio hybrid, pan gaiff ei ddefnyddio mewn ffordd briodol. Roeddent o’r farn bod hyn yn eu galluogi i glywed gan gynulleidfa ehangach a’i fod yn darparu ar gyfer amgylchiadau unigolion ar yr un pryd.
8. Roedd yr Aelodau hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfleusterau a ddarperir i alluogi pobl i ymgysylltu â phwyllgorau yn eu dewis iaith.
9. Teimlai’r Aelodau fod eu gwaith mwyaf pwerus wedi deillio o ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad byw. Yn benodol, fe wnaethant dynnu sylw at yr ymchwiliad i ganserau gynaecolegol, lle clywsom gan fenywod sy'n byw gyda chanserau gynaecolegol, neu sydd â phrofiad ohonynt, ac at y gwaith craffu ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), lle y gweithiodd y Pwyllgor gyda Voices from Care Cymru i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn gyfraniad defnyddiol at eich gwaith.

Yn gywir,



Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.